



Cwestiynau Cyffredin am Hearts for the Arts

Ynglyn â Hearts for the Arts

Beth yw Hearts for The Arts?

Mae Hearts for the Arts yn fenter wobrwyo sy'n cydnabod ac yn dathlu cefnogaeth eithriadol llywodraeth leol i'r celfyddydau. Mae rhai awdurdodau lleol yn deall pwysigrwydd y celfyddydau i les cymunedau lleol a gwerth y buddsoddiad bach ond hanfodol hwn, hyd yn oed ar adegau sy'n heriol yn ariannol. Mae Hearts for the Arts am ddiolch i gynghorau, cynghorwyr a swyddogion y cyngor sy'n cefnogi'r celfyddydau.

Pryd ddechreuodd Hearts for the Arts?

Dechreuodd Hearts for the Arts yn Hydref 2016. Mae bellach yn ei drydedd flwyddyn.

Pwy sy'n gysylltiedig â'r fenter?

Mae Hearts for the Arts yn fenter sy'n cael ei rhedeg gan [Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau](#), gyda [UK Theatre](#). Ein partneriaid ar gyfer 2019 yw [Culture Counts](#), [y Gymdeithas Llywodraeth Leol](#), [TheatreNI](#), [Celfyddydau Gwirfoddol Cymru](#), [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) a [What Next?](#)

Sut caiff ei chyllido?

Mae Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau yn cwmpasu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwobrau, sy'n elusen gofrestredig a ariennir gan roddion y cyhoedd a mudiadau'r diwydiant celfyddydau. Darperir cymorth mewn ffyrdd eraill gan [UK Theatre](#) a sefydliadau partner eraill.

Beth yw categorïau'r gwobrau?

Mae pedwar categori yn y gwobrau:

1. Menter Gelfyddydol Orau mewn Awdurdod Lleol
2. Prosiect Celfyddydol Gorau sy'n Annog Cydlyniant Cymunedol mewn Awdurdod Lleol
3. Hyrwyddwr Celfyddydol Gorau mewn Awdurdod Lleol - Cynghorydd
4. Hyrwyddwr Celfyddydol Gorau mewn Awdurdod Lleol - Swyddog

Pa ardaloedd daearyddol sy'n cael eu cwmpasu?

Mae'r gwobrau yn cwmpasu mentrau, prosiectau, cynghorwyr a swyddogion sy'n gweithio yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Beth yw'r dyddiadau allweddol ar gyfer y gwobrau eleni?

Mae'r enwebiadau yn agor ddydd Mercher 12 Medi 2018 ac yn cau am hanner nos ar ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018.

Cyhoeddir y rhestr fer ar ddydd Mercher 23 Ionawr 2019, a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi ar ddydd Iau 14 Chwefror 2019 – Gŵyl Sant Ffolant – er mwyn i ni ddangos ein cariad tuag at yr enillwyr!

Enwebiadau

Pwy sy'n gallu cael eu henwebu?

Ar gyfer Menter Gelfyddydol Orau mewn Awdurdod Lleol a'r Prosiect Celfyddydol Gorau sy'n Annog Cydlyniant Cymunedol mewn Awdurdod Lleol: menter neu brosiect a grëwyd neu a ddarparwyd gan sir, rhanbarth, bwrdeistref, cyngor dinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol.



Ar gyfer Hyrwyddwr Celfyddydol Gorau mewn Awdurdod Lleol: unigolyn y mae ei (g)waith yn dylanwadu ac yn annog gweithgareddau celfyddydol o fewn ardal y cyngor. Mae'n rhaid i'r gwaith rydych yn ei enwebu fod wedi'i wneud fel rhan uniongyrchol o'u cyflogaeth gyda'r sir, rhanbarth, bwrdeistref, cyngor dinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol (gan gynnwys ymddiriedolaethau diwylliannol sy'n darparu ar ran eu hawdurdod lleol).

Pwy sy'n gallu enwebu? / Oes unrhyw un sydd ddim yn gallu enwebu?

Gall unrhyw un wneud enwebiad.

Er enghraifft, gallech fod yn aelod o'r cyhoedd sydd wedi gweld neu wedi bod yn rhan o brosiect gwych gan yr awdurdod lleol; gweithiwr yn yr awdurdod lleol sy'n rhedeg menter; neu gydweithiwr rhywun rydych chi'n meddwl sy'n haeddu gwobr.

Sut rwy'n enwebu?

Gallwch enwebu prosiect neu berson drwy lenwi ffurflen enwebu yn:

<http://forthearts.org.uk/campaigns/hearts-for-the-arts/>

Mae enwebiadau ar agor o 12 Medi 2018 tan 2 Tachwedd 2018.

Ydw i'n gallu gwneud mwy nag un enwebiad?

Nid oes cyfyngiad i'r nifer o enwebiadau y gallwch eu gwneud. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno ffurflen enwebu ar wahân ar gyfer pob un.

Beirniadu'r Gwobrau

Beth yw'r broses feirniadu?

Bydd swyddogion Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau yn creu rhestr hir o enwebeion. Bydd ein beirniaid yn ystyried rhinweddau pob un sydd ar y rhestr hir ac yn sgorio pob cais yn seiliedig ar y meini prawf a nodir ar y ffurflen enwebu, gan benderfynu ar y rhestr fer a'r enillydd ar gyfer pob categori.

Pwy yw'r beirniaid?

Y beirniaid yw'r actor Samuel West a Chadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, a phanel o bobl flaenllaw ym myd y celfyddydau (i'w cyhoeddi).

Ymhlith y cyn feirniaid mae Maria Balshaw, Deborah Bull CBE, AL Kennedy, David Lan, Josie Long, Chi-chi Nwanoku OBE, Phillip Pullman, Bob & Roberta Smith a Roy Williams OBE.

Yr Enillwyr

Sut bydd yr enillwyr yn cael eu cydnabod?

Cyflwynir y gwobrau gan Samuel West, actor a Chadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, yng Nghynhadledd Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Cynigir lle i'r enillwyr yn y gynhadledd, sef y casgliad blynyddol mwyaf o gynghorwyr a swyddogion sy'n ymwneud â diwylliant, twristiaeth a chwaraeon.

Yn ogystal, mae Samuel West wedi cynnig siarad â phob enillydd yng nghyfarfod y Cyngor, ynghyd â chyd-berfformiwr neu berson creadigol enwog sydd â chysylltiad lleol.

Pwy yw'r cyn enillwyr?

Gallwch ddarllen popeth am enillwyr y llynedd [fan hyn](#).



Cymorth Pellach

Sut alla i neu fy sefydliad helpu?

Gallwch ein helpu drwy ledaenu'r neges am y gwobrau. Rydym ni eisiau digonedd o enwebiadau o holl wledydd y DU, ac ar ôl cyhoeddi'r rhestr fer a'r enillwyr, rydym am wneud tipyn o sbloets am y gwaith gwych maen nhw'n ei wneud. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ein dilyn ar Twitter @weareforthearts ac ar y hashnod #HeartsfortheArts, ac ar Facebook facebook.com/weareforthearts i rannu eu newyddion da.

Gallwch hefyd gefnogi'r gwobrau a gwaith ymgyrchu Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau drwy ymuno â'n cynllun cefnogwyr forthearts.org.uk/support-us neu cysylltwch â ni ar hello@forthearts.org.uk os ydych eisiau helpu mewn unrhyw ffordd arall.

Gwybodaeth Gyswilt

Pwy ddylwn i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth am Hearts for the Arts?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am wobrau Hearts for the Arts, e-bostiwch annie@soltukt.co.uk

Pwy ddylwn i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth am Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau?

Am ragor o wybodaeth am waith Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, anfonwch e-bost at hello@forthearts.org.uk

Ble alla i ddod o hyd i Hearts for the Arts ar gyfryngau cymdeithasol?

Rydym ar Twitter yn @weareforthearts a #HeartsfortheArts.
Gallwch ddilyn Hearts for the Arts ar Facebook yn facebook.com/weareforthearts

Sut alla i gael y wybodaeth ddiweddaraf?

[Ymunwch â'n rhestr bostio](#) am ddiweddariadau achlysurol am Wobrau Hearts for the Arts ac ymgyrchoedd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau.